# YMWELIADAU SAFLE

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Awst, 2019

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard O Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Bryan Owen. |
| **WRTH LAW:** | Uwch Swyddog Cynllunio (JBR),<br>Swyddog Cynllunio (Gorfodaeth) (GB) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Dim |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol : Y Cynghorydd Aled Morris Jones – (ar gyfer cais 1); Y Cynghorydd Peter Rogers – (ar gyfer cais 2); Y Cynghorydd Alun Mummery – (ar gyfer cais 3) |

---

**1 FPL/2019/116 - CAIS LLAWN I NEWID DEFNYDD HEN EGWLYS I FOD YN DDWY UNED WYLIAU YNGHYD AG ADDASIADAU AC ESTYNIADAU YN ST DAVID'S, STRYD ATHOL, CEMAES**

Amlinellwyd y cais ar gyfer yr Aelodau. Edrychodd yr Aelodau ar safle'r cais o Sgwâr Athol (priffordd breifat), yr hawl dramwy sy'n arwain at Y Garreg a chefn safle'r cais a hefyd o erddi preifat Tafarn y Vigour a 1 a 2 Fairview.

**2 VAR/2019/14 - CAIS DAN ADRAN 73A I DDILEU AMOD (08) (LEFEL LLAWR GORFFENEDIG) AC AMRYWIO AMOD (11) (CYNLLUNIAU A GYMERADWYWYD DAN GAIS AM Y MATERION A GADWYD YN ÔL RHIF 15C48J/FR/DA) O GAIS CYNLLUNIO AMLINELLOL RHIF 15C48H (CAIS AMLINELLOL AR GYFER CODI ANNEDD YNGHYD Â CHREU MYNEDFA NEWYDD I GERBYDAU) FEL Y GELLIR DIWYGIO GOSODIAD A DYLUNIAD YR ANNEDD A'R GAREJ AR WAHÂN A GYMERADWYWYD YN FLAENOROL, YNGHYD Â CHODI WAL AMDDIFFYN RHAG LLIFOGYDD NEWYDD O GWMPAS Y SAFLE YN CAE EITHIN, MALLTRAETH**

Amlinellwyd y cynnig ar gyfer yr Aelodau. Edrychodd yr Aelodau ar y safle o'r briffordd gyhoeddus, y dreif preifat sy'n arwain at yr annedd ac o fewn safle'r cais ei hun.

**3 HHP/2019/129 - CAIS LLAWN AR GYFER CODI GAREJ AR WAHÂN YN TY ARFON, LÔN REFAIL, LLANFAIRPWLL**

Amlinellwyd y cynnig ar gyfer yr Aelodau. Edrychodd yr Aelodau ar safle'r cais o'r briffordd gyhoeddus, y dreif breifat sy'n arwain at yr eiddo ac oddi mewn i safle'r cais ei hun.

**Y CYNGHORYDD NICOLA ROBERTS**
**CADEIRYDD**